Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad
Senedd Cymru

Commonwealth Parliamentary Association
Welsh Parliament

**CYFARFOD PWYLLGOR GWEITHREDOL Y GANGEN**
**15 Tachwedd 2023**

**COFNODION Drafft**

<u>Yn bresennol</u>
Rhun ap Iorwerth AS, Cadeirydd
David Rees AS (Is-lywydd)
Alun Davies AS
Delyth Jewell AS
Sam Rowlands AS
Adam Price AS
Carolyn Thomas AS

<u>Ysgrifenyddiaeth</u>
Al Davies, Ysgrifennydd Dros Dro y Gangen
Elin Sutton, Swyddfa Breifat y Llywydd

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau gan
– Rhianon Passmore AS
– Natasha Asghar AS

2. **COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** – Papur CPA 6S-23-01 (**DOGFEN 1**)

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Dim

4. **ADOLYGIAD O WEITHGAREDDAU DIWEDDAR**

**Adborth ar gyfarfodydd, ymweliadau,**
digwyddiadau a chynadleddau diweddar a chamau dilynol

- *Uwchgynhadledd ar gyfer Arweinwyr Gwleidyddol Benywaidd*
  *Brwsel*
  *7-8 Mehefin*

  Roedd Rhianon Passmore AS yn un o'r menywod BIMR a ddewiswyd i fynd i'r Uwchgynhadledd ar gyfer Arweinwyr Gwleidyddol Benywaidd a gynhaliwyd ym Mrwsel, gyda chefnogaeth y Gronfa Atgyfnerthu Rhanbarthol.

- *Ymweliad gan Stephen Twigg, Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas*
  *20 Mehefin.*

  Roedd y Gangen yn falch o gael y cyfle i hwyluso rhaglen gynhwysfawr ar gyfer ymweliad yr Ysgrifennydd Cyffredinol â'r Senedd. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda Deiliaid Swyddi ac Ysgrifenyddiaeth y Gangen, yn ogystal â chyfarfod â Huw Irranca-Davies AS i glywed am ei brofiadau yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Halifax, a'i adborth ynghylch y gynhadledd. Roedd y cinio a gynhaliwyd gan y Gangen yn gyfle i drafod ystod o faterion, gan gynnwys hawliau LHDT yng nghyd-destun y gynhadledd a gaiff ei chynnal yn Ghana, a statws cyfreithiol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

- *Gweminar y Gangen ar nodau datblygu cynaliadwy: Y tu hwnt i 2030*
  30 Awst

  Roedd Huw Irranca-Davies AS yn un o bump o banelwyr a gymerodd ran yn y weminar hon, gan gynrychioli ystod o Seneddau'r Gymanwlad.

Yn ystod y weminar, archwiliodd y panelwyr fap ffordd ar gyfer llunio rhagolygon ynghylch datblygu cynaliadwy ar ôl 2030. Gwnaethant drafod y pethau cadarnhaol a'r pethau negyddol sy'n gysylltiedig â'r nodau datblygu cynaliadwy presennol, gan nodi'r gwersi pwysig a ddysgwyd o ran goresgyn risgiau yn y dyfodol a manteisio ar gyfleoedd yn y dyfodol.

- Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad
  *Accra, Ghana*
  *2-5 Hydref*

  Croesawodd y Cadeirydd Adam Price AS a Carolyn Thomas AS i'r cyfarfod. Diolchodd i'r ddau am eu hadroddiad, gan nodi ei fod yn dangos yn glir sut yr oeddent wedi cyfrannu at y gynhadledd yn Accra, ac wedi elwa'n helaeth ar y cyfranogiad hwnnw. Gwahoddwyd Adam a Carolyn i siarad am eu hadroddiad ac i rannu'r profiadau a gawsant yn Ghana gyda'r Aelodau a oedd yn bresennol.

  Nododd yr Aelodau eu siom ynghylch y ffaith nad oedd dirprwyaeth y Senedd wedi cael gwahoddiad i sesiwn friffio rhwng Aelodau Senedd y DU ac Uchel Gomisiynydd Prydain yn Ghana.

  *Cam i'w gymryd:* Gofynnodd yr Aelodau a oedd yn bresennol i'r Ysgrifenyddiaeth gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y BIMR (efallai ar y cyd â'r Seneddau datganoledig eraill) er mwyn gofyn a fyddai cynrychiolwyr o holl ddeddfwrfeydd y DU yn cael gwahoddiad i ymuno â chyfarfodydd a sesiynau briffio yn y dyfodol a gynhelir gan Uchel Gomisiwn Prydain yn y gwledydd sy'n cynnal Cynadleddau Seneddol y Gymanwlad.

- *Cyfarfod o Bwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Ar-lein*
  *23 Hydref*

  Cymerodd Rhianon Passmore AS ran yn y cyfarfod hwn, a oedd yn cynnwys adborth gan y Cadeirydd, y Fonesig Maria Miller, ynghylch cyfarfod Seneddwragedd y Gymanwlad yn Accra, yn ogystal â thrafodaethau ar weithgareddau Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR ar gyfer y misoedd i ddod.

- *Gweminar Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau BIMR*
  *26 Hydref*

  Roedd y weminar ddiweddaraf hon yn y gyfres o weminarau rhanbarthol Seneddwyr y Gymanwlad ag Anableddau yn cynnwys cyflwyniad ar SEE Around Britain – prosiect i gefnogi hygyrchedd ar gyfer pobl ag anableddau. Cafodd y sesiwn ei chynnig gan Mark Isherwood AS, a fu hefyd yn trafod gwaith Anabledd Dysgu Cymru.

- *Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad / Gweminar ynghylch yr Argyfwng Hinsawdd: "Y Cefnfor – Ein Cyfaill Hinsawdd"*
  8 Tachwedd

  Cynhaliwyd sesiwn ddiweddaraf Gweithgor Argyfwng Hinsawdd y BIMR ar Ynys Manaw. Yn ystod y sesiwn honno, trafodwyd "ecosystemau carbon glas". Yn anffodus, nid oedd modd i Llyr Gruffudd AS fod yn bresennol. Nododd y Cadeirydd y byddai'r Gangen yn ceisio cynnwys mwy o Aelodau yn rhaglen y Gweithgor ar gyfer y dyfodol. Dywedodd Delyth Jewell AS fod ganddi ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn sesiynau yn y dyfodol. Yn y cyfamser, gofynnodd a oedd recordiad o'r sesiwn dan sylw ar gael.

  *Nodyn:* Ni chafodd y weminar ei recordio, ond rhannodd Ysgrifenyddiaeth y Gangen ddeunydd ategol ar gyfer y sesiwn.

- *Fforwm Byd-eang Reykjavik – Arweinwyr Benywaidd*
  *13-14 Tachwedd*

  Cafodd Rhianon Passmore AS ei dewis fel un o'r cynrychiolwyr i fynd i'r Uwchgynhadledd ar gyfer Arweinwyr Benywaidd yng Ngwlad yr Iâ, a gafodd ei hariannu gan Gronfa Atgyfnerthu Rhanbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad.

  Yn dilyn ei chyfranogiad yn yr Uwchgynhadledd, bydd Rhianon Passmore AS yn adrodd yn ôl maes o law.

- *Ymweliad gan Senedd Ffederal Canada*
  *14 Tachwedd*

  Roedd nifer o Aelodau'r Gangen wedi cymryd rhan yn yr ymweliad a wnaed y diwrnod cynt gan ddirprwyaeth o Senedd Ffederal Canada.

Yn ogystal â chinio swyddogol a gynhaliwyd gan Is-lywydd y Gangen, roedd rhaglen yr ymweliad yn cynnwys sesiwn ffurfiol ynghylch *Menywod yn y Senedd.* Cafwyd cyfraniadau yn ystod y sesiwn honno gan Delyth Jewell AS, Carolyn Thomas AS a Joyce Watson AS.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y ddirprwyaeth o Ganada, a oedd yn awyddus i ddiolch i bawb a gymerodd ran yn eu rhaglen.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH

**Cyfarfodydd, ymweliadau, digwyddiadau a chynadleddau arfaethedig**

- *Dirprwyaeth o Gynulliad Deddfwriaethol Maharashtra (India)*
  *(drwy Brifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant)*
  *23 Tachwedd.*

  Er nad yw hon yn rhaglen swyddogol gan y Senedd, cafodd yr Aelodau wybod am yr ymweliad hwn, a drefnwyd gan Is-Ganghellor Prifysgol y Drindod Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan. Cafodd aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol wybod y byddai croeso iddynt gwrdd â'r ddirprwyaeth, pe byddent ar gael, ac awgrymodd Alun Davies AS y byddai'n debygol o fanteisio ar y cyfle hwnnw.

- *Cyfarfod Pwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR*
  *Ar-lein*
  *4 Rhagfyr*

  Roedd disgwyl i Agenda’r cyfarfod gynnwys:

  *– adborth o’r Uwchgynhadledd ar gyfer Menywod yn Reykjavik*
  *– cynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR a gaiff ei chynnal ym Malta*

- *Cynhadledd ar-lein Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar y Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol: “Deallusrwydd artiffisial, Twyllwybodaeth a’r Senedd: Sicrhau Uniondeb ein Democratiaeth Ddigidol”*
  *4-6 Rhagfyr 2023*

Mae’r rhaglen hon, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn ennyn cryn ddiddordeb, a chafodd yr Aelodau wybod am y dyddiad cau o ran cofrestru ar gyfer y gynhadledd, sef 24 Tachwedd.

_2024_

- *Cwrs Hyfforddiant Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ynghylch Arsylwi Etholiadau*
  *Ar-lein*
  *22 - 23 Ionawr*

  Rhannodd y Cadeirydd wybodaeth â’r Aelodau ynghylch y sesiwn hyfforddiant arfaethedig hon ar gyfer Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir, gan nodi y gallai fod yn anodd i’r Aelodau fod yn bresennol gan fod y dyddiadau yn gwrthdaro â busnes y Senedd.

  _Nodyn:_ Yn dilyn hynny, cadarnhawyd y byddai’r Dirprwy Lywydd AS yn gallu cymryd rhan yn y sesiwn hyfforddiant.

- *Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad*
  Malta
  Chwefror/Mawrth (i'w gadarnhau)

  Yn anffodus, ni fu'n bosibl trefnu cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ym Malta yn nhymor yr hydref. Fodd bynnag, cadarnhaodd Cangen Malta ei ymrwymiad i gynnal y gynhadledd dan sylw.

  *_Nodyn:_* Cadarnhaodd Ysgrifenyddiaeth y BIMR y byddai’r gynhadledd yn cael ei chynnal ar 7-8 Mawrth 2024.

- *Seminar Seneddol Canada*
  *Ottawa*
  *w/d 18 Mawrth (i'w gadarnhau)*

  Nododd y Cadeirydd y byddai Seminar Senedd Canada – digwyddiad yr oedd ef ac Aelodau eraill o'r Senedd wedi bod yn bresennol ynddo yn flaenorol – yn ailddechrau y flwyddyn nesaf. Byddai’r Senedd yn cael ei gwahodd i wneud cais am le yn y Seminar, sydd wedi’i anelu at Seneddwyr newydd a Seneddwyr a etholwyd yn ddiweddar.

- *72ain Seminar San Steffan*
  *Llundain*
  *11-15 Mawrth*

  Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Senedd wedi cael cynnig lle yn Seminar San Steffan y flwyddyn nesaf, ac roedd yn falch bod Carolyn Thomas AS wedi cael ei derbyn ar ôl cael ei henwebu gan y Gangen.

- *Cynhadledd BIMR*
  *St Helena*
  *18-25 Mai*

  Cadarnhaodd Cangen San Helena y byddai'n cynnal Cynhadledd BIMR ym mis Mai y flwyddyn nesaf. O ystyried mai dim ond teithiau hedfan wythnosol sy'n cael eu cynnal rhwng De Affrica a St Helena, byddai'r gynhadledd yn cael ei chynnal dros gyfnod estynedig ar yr achlysur hwn.

  <u>*Nodyn:*</u> Cyhoeddodd Cangen San Helena wahoddiad swyddogol i'r gynhadledd yn fuan ar ôl y cyfarfod hwn, a gofynnwyd am ddatganiadau o ddiddordeb mewn mynd i'r gynhadledd gan Aelodau o'r Pwyllgor Gweithredol.

- 67ain Gynhadledd Seneddol y Gymanwlad,
  *Sydney, De Cymru Newydd*
  *dechrau Tachwedd (yr union ddyddiadau i'w cadarnhau)*

  Roedd De Cymru Newydd (Sydney) bellach wedi'i gadarnhau'n swyddogol fel lleoliad y gynhadledd y flwyddyn nesaf. Rydym yn disgwyl gwahoddiad swyddogol i'r gynhadledd yn ystod yr haf, gydag un lle ar gyfer cynrychiolydd unigol wedi'i warantu.

## *6.* EITEMAU NEWYDD / UNRHYW FATER ARALL

*i) Nodwyd yr* Adroddiad swyddogol ar *52ain Gynhadledd Rhanbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir (BIMR) (a gynhaliwyd gan gangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad y DU yn San Steffan ym mis Ebrill)*.

*ii) Diddordeb mewn sefydlu Rhwydwaith LHDTC+ o fewn Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.*

Soniodd Adam Price AS wrth yr Aelodau a oedd yn bresennol am ei ddiddordeb mewn datblygu Rhwydwaith LHDTC+ o fewn Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Roedd wedi cynnal trafodaethau anffurfiol gydag Ysgrifennydd Rhanbarthol y BIMR, yn ogystal â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, cyn iddo gymryd rhan yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn Ghana.

Roedd sgyrsiau cychwynnol yn awgrymu y gallai camau gweithredu tuag at fenter o'r fath, fel cynnal gweminar dan arweiniad un neu fwy o ganghennau'r BIMR, fod yn gamau cychwynnol effeithiol. Yna, byddai modd datblygu'r gwaith hwn ymhellach pe bai digon o ddiddordeb a momentwm. Cafodd y broses o ddatblygu'r *Rhwydwaith Seneddwyr ag Anableddau* ei chrybwyll fel model cadarnhaol.

*Cam i'w gymryd:* Ysgrifenyddiaeth y Gangen i gynnal trafodaethau pellach â chydweithwyr BIMR, gyda'r nod o archwilio opsiynau posibl i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

iii) Aelodaeth o Rwydweithiau Rhyngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad / Rhwydweithiau'r Gymanwlad.
Cafwyd sgwrs fer lle gofynnwyd a oedd y Senedd yn ymwybodol o rwydweithiau amrywiol y Gymanwlad ac a oedd yn cymryd rhan ynddynt, gan gynnwys:

- Cynhadledd Llefarwyr a Llywyddion y Gymanwlad *(CSPOC)*
- Cymdeithas y Clercod Wrth y Bwrdd (*SOCATT*)
- *Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus ar draws y Gymanwlad (PACAC).*

*Cam i'w gymryd:* Bydd Ysgrifenyddiaeth y Gangen yn adrodd yn ôl ar y materion hyn.

7. **DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL:**

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Dydd Mercher 6 Rhagfyr 2023
Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol y Gangen – Chwefror / Mawrth 2023 (i'w gadarnhau)

**DIWEDD**